



## **1. Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 - Penderfyniad Caniatâd ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

- 1.1 Teitl:** Echdynnu Mwynau Morol Bedwyn Sands, Aber Afon Hafren
- 1.2 Cymeradwyaeth Rheoleiddio:** Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- 1.3 Gweithredwyr:** Severn Sands Cyf.
- 1.4 Rhif Cais Trwydded Forol** MMML1516
- 1.5 Lleoliad:** Bedwyn Sands, Aber Afon Hafren

## **2. Mynegai**

1. Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 - Penderfyniad Caniatâd ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol .....	1
2. Mynegai .....	1
3. <b>Pwrpas</b> .....	2
4. Y Cais .....	2
5. Y Datganiad Amgylcheddol (DA) - MWR 12 (1) (d) .....	2
6. Rhybuddion Cyhoeddus - Rheoliadau Gwaith Morol 16(2)(g) .....	3
7. Ymgynghoriad - Rheoliadau Gwaith Morol 17(1)(a)(iv) .....	3
8. Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd .....	4
9. Materion yn codi ar gyfer ystyried y Datganiad Amgylcheddol, y Cais am Drwydded Forol a sylwadau a dderbyniwyd .....	4
Gwerthusiad Rheoleiddio a phenderfyniad cydsynio AEA (EIA) .....	11
Llofnodi .....	11

### **3. Pwrpas**

- 3.1 Mae'r ddogfen hon yn ffurfio penderfyniad caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan Reoliad 22 Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (MWR) mewn perthynas â chais am Drwydded Forol (cyf: MMML1516) a gyflwynwyd gan Severn Sands Ltd. Cefnogwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a gwybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r cais ac mae bellach mewn sefyllfa i wneud penderfyniad am ganiatâd Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd i Severn Sands Ltd.
- 3.2 Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gwaith Morol, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol (ES), sylwadau cyrff ymgynghori ac aelodau'r cyhoedd ac wedi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad Asesiad Sgrinio Trawsffiniol penderfynwyd nad oedd ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr AEE yn angenrheidiol.

### **4. Y Cais**

- 4.1 Mae Severn Sands Ltd yn gwneud cais am Drwydded Forol i barhau i dynnu mwynau morol o Bedwyn Sands yn Aber Afon Hafren. Mae'r ardal carthu yn croesi ffin Cymru /Lloegr ac mae angen trwyddedau ychwanegol gan y Sefydliad Rheoli Morol a Chyngor Sir Fynwy. Mae'r carthu hyd yma wedi bod yn gweithredu heb Drwydded Forol a daeth y caniatâd cyfredol a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Fynwy i ben ar 30 Mehefin 2015. Caniatawyd i'r carthu barhau o wybod bod cais am Drwydded Forol yn cael ei benderfynu ar hyn o bryd.
- 4.2 Mae manylion y cais yn cael eu rhestru isod:
- Trwydded 9 mlynedd gyda gweithgareddau carthu yn dod i ben ar ôl 7
  - Uchafswm y tunelli blynyddol 250,000 ar draws ardal gyfan y Drwydded (Dyfroedd Cymru a Lloegr)
  - Cyfanswm y bwriedir ei echdynnu 1,750,000
  - Math o ddeunydd - tywod
  - Dull Echdynnu - 'Trailing Suction Hopper'
  - Parth Gwahardd - pob ardal i'r gogledd o Ogleddiad 183000N
  - Monitro Gweithredol - benthig, bathymetreg a LIDAR.

### **5. Y Datganiad Amgylcheddol (DA) - MWR 12 (1) (d)**

- 5.1 Amlinellodd y Datganiad Amgylcheddol effeithiau posibl y prosiect arfaethedig a drefnwyd o dan y penawdau canlynol:

## 5.2 Penodau technegol:

- Prosesau Ffisegol
- Ansawdd Dŵr a Gwaddod
- Asesiad Effaith
- Gwarchod Natur
- Cynefinoedd a Rhywogaethau benthig
- Pysgod a Physgod Cregyn
- Adareg y Môr a'r Arfordir
- Mamaliaid Morol a Chrwbanod
- Pysgodfeydd Masnachol a Hamdden
- Mordwyo Masnachol a Hamdden
- Archaeoleg Morol
- Gwarchod yr Arfordir ac Amddiffyn Rhag Llifogydd
- Ansawdd Aer
- Seilwaith a Defnyddwyr Morol Eraill
- Effeithiau Cronnus ac Mewn-cyfuniad
- Lliniaru a Monitro

## 5.3. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1) (d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gwaith Morol.

## 6. Rhybuddion Cyhoeddus - Rheoliadau Gwaith Morol 16(2)(g)

6.1 Cafodd y rhain eu hysbysebu i roi gwybod i bartïon sydd â diddordeb am y gwaith arfaethedig ac i roi cyfle i unrhyw bartïon â diddordeb neu aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau ar y cais yn ôl yr angen.

6.2 Sicrhawyd bod y dogfennau cais ar gael fel a ganlyn:

- Gosodwyd rhybudd cyhoeddus wedi'i gyfieithu yn y Western Mail ar 20 a 27 Ebrill, 2015 ac yn y Bristol Post ar 3 a 10 Gorffennaf, 2015 ac yn y Fishing Post ar 10 Gorffennaf 2016.
- Sicrhawyd bod y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd fel a ganlyn: Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA a Llyfrgell Ganolog Bryste, College Green, Bryste, BS1 5TL am 49 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r rhybudd cyhoeddus cyntaf.
- Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd

## 7. Ymgynghoriad - Rheoliadau Gwaith Morol 17(1)(a)(iv)

7.1 Ymgynghorwyd ynghylch y cais am Drwydded Forol ar 14 Ebrill 2015 ar gyfer cyfnod o 42 diwrnod. Cafodd ei anfon at y cyrff ymgynghori canlynol:

7.2 Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW PS) Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Dyframaethu (Cefas), Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Ystâd y Goron (TCE), Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) ar gyfer Sir Fynwy, Cyngor Dinas Bryste a Chyngor Gogledd Gwlad yr Haf, Awdurdodau Harbwr Lleol

Porthladdoedd Prydeinig Cysylltiedig, Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw, The Bristol Port Company, Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol (LBO), Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Trinity House (TH), Cadw, Cangen Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Swyddogion Gorfodi Morol (MEO) Natural England (NE), Asiantaeth yr Amgylchedd (AA), Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, Historic England, Sefydliad Rheolaeth Morol (MMO), Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr (NFFO), Cymdeithas Pysgodfeydd y Glannau ac Awdurdodau Cadwraeth (IFCA), Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain a Stad Swansgrove.

**7.3 Cyflwynodd y sefydliadau canlynol sylwadau::** Cefas, CNC, MCA, Cyngor Dinas Bryste, GHT, The Bristol Port Company, GGAT, Asiantaeth yr Amgylchedd, NE a HE.

7.4 Tybiwyd nad oedd gan ymgynghoreion na wnaeth ymateb unrhyw sylwadau

## **8. Safleoedd Gwarchoddedig Ewropeaidd**

8.1 Mae'r cynnig wedi ei leoli o fewn Safle Gwarchoddedig Ewropeaidd.

8.2 Mae effeithiau'r cynnig ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol, eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth wedi eu hystyried gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y gwaith o benderfynu ar drwyddedau:

- ACA Aber Hafren
- AGA Aber Hafren
- Ramsar Aber Afon Hafren

**8.3** Cynhaliwyd prawf o effaith sylweddol tebygol (TLSE) ac ni ellid diystyru effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd a restrir uchod. Cymerwyd y nodweddion canlynol drwy asesiad priodol; aberoedd, gwastadeddau tywod islanwol, gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol a dôl heli'r Iwerydd. Yn dilyn AA daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig, o'i ystyried ar ei ben ei hun ac ar y cyd, yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd dan sylw.

**8.4** Mae manylion pellach yn cael eu disgrifio yn Asesiad y Rheoliadau Cynefinoedd.

## **9. Materion yn codi ar gyfer ystyried y Datganiad Amgylcheddol, y Cais am Drwydded Forol a sylwadau a dderbyniwyd**

**9.1** Wrth gymryd penderfyniad cydsynio Rheoliad 22 AEA (EIA), rydym wedi ystyried y materion sydd wedi eu nodi ar ôl ystyried y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau gan gyrff ymgynghori, ac unrhyw wybodaeth atodol a roddwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd.

**9.2** Rhoddir manylion am y materion perthnasol a amlygwyd gan broses ymgynghori'r Datganiad Amgylcheddol a'r graddau y maent wedi cael eu trin yn yr adran hon.

### **9.3 Ni roddodd y sefydliadau canlynol unrhyw sylwadau; MOD, RYA,**

#### **9.4 Disgrifiad o'r prosiect**

- 9.4.1** Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England an fwy o wybodaeth am leoliad y gwaith carthu. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dangos lleoliadau'r carthu am gyfnod byr o fis Tachwedd 2014 i fis Mawrth 2015. Mae angen y wybodaeth hon i asesu newidiadau mewn bathymetreg yn enwedig y dyfnhau sylweddol mewn rhai ardaloedd. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi bod yr ardaloedd hyn o ddyfnhau gwely'r môr yn ganlyniad i brosesau naturiol, mae unrhyw bantiau yng ngwely'r môr a grëwyd gan garthu yn cael eu llenwi'n gyflym. Noda Natural England a Chyfoeth Naturiol Cymru nad yw'n bosibl cefnogi'r tybiaethau hyn heb wybod ble mae'r carthu wedi digwydd mewn perthynas â'r ardaloedd sydd wedi eu dyfnhau. Byddai'r wybodaeth hon yn bwysig wrth nodi parthau carthu o fewn ardal y Drwydded. Ymatebodd Severn Sands trwy gyfrwng atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol. Nododd yr atodiad nad yw Bedwyn Sands yn ardal Trwydded Ystâd y Goron, ac felly nid yw wedi bod yn ofyniad i gyflwyno data EMS blynyddol fel y mae gyda safleoedd carthu ar brydles gan Stad y Goron. Daw'r unig gofnod o leoliad carthu yn dod o log llongau, yr wybodaeth a roddir yw'r holl wybodaeth sydd ar gael. Mae Natural England yn derbyn nad oes dim data EMS ar gael ond roedd yn dal i fod angen mwy o dystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth bod newidiadau mewn bathymetreg yn ganlyniad i brosesau naturiol. Gofynnodd Natural England (NE) am i'r lleoliadau echdynnu a ddarparwyd ar gyfer 2014 a siartiau arwyneb gael eu troshaenu i gynrychioli llwyth llawn o long garthu gyda chapasiti o 1,000 tonn mewn cylch llanw. Darparodd Severn Sands ddogfen eglurhad pellach yn dangos lleoliadau carthu wedi eu troshaenu gyda newid bathymetrig wedi'i gyfrifo. Mae NE yn fodlon â'r ymateb ac yn awgrymu amod yn y drwydded sy'n gofyn am gyflwyno data EMS wedi ei ddadansoddi'n llawn.
- 9.4.2** Roedd Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon gyda'r ymatebion a roddwyd gan Severn Sands yn yr atodiad a'r ddogfen eglurhad pellach. Er y byddai gwybodaeth am leoliad y carthu ychwanegol wedi bod yn ddefnyddiol i fod yn sail i'r asesiad mae'r rhesymau a roddwyd dros beidio â bod â'r data hwn wedi cael eu hesbonio gan yr ymgeisydd a'u deall gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys amod yn y Drwydded a fydd yn gofyn am gyflwyno data EMS wedi'i ddadansoddi'n llawn fel rhan o'r adroddiad blynyddol.
- 9.4.3** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a NE yn annog y defnydd o barthau carthu gweithredol (ADZ's) ac roeddent yn croesawu'r cyfeiriad yn y Datganiad Amgylcheddol fel rhywbeth sy'n arfer cyffredin. O ystyried bod cloddio ar nodwedd ddynodedig mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo trwy weithredu ADZs y byddai ôl troed y gwaith carthu yn gyfyngedig. Ymatebodd Severn Sands yn yr atodiad a nododd fod y gwaith o weithredu ADZs wedi cael ei drafod o'r blaen a'i ddiystyru oherwydd ymddygiad cyfnewidiol y safle a system y banciau ehangach. Nid yw'r ymgeisydd yn gwrthwynebu ADZs cyn belled ag y bônt yn caniatáu digon o hyblygrwydd addas o ran targedu agregau. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu dod o hyd i unrhyw gofnodion o unrhyw drafodaethau sy'n diystyru defnyddio ADZ, a byddai CNC yn hoffi gweld gostyngiad yn ôl-troed y carthu. Roedd NE hefyd yn cefnogi gweithredu ADZ wrth ddilyn protocol cyffredin ar gyfer echdynnu agregau a fyddai'n caniatáu i ardaloedd echdynnu cyfyngedig helpu i reoleiddio a rheoli unrhyw newidiadau mewn morffoleg ac effaith ar draws ardal.

- 9.4.4** Yn dilyn trafodaethau pellach gyda Severn Sands a CNC, ni fydd Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys ADZs fel rhan o'r amodau o fewn y Drwydded hon ond byddant yn ystyried hyn ar gyfer Trwyddedau yn y dyfodol,
- 9.4.5** Nododd CNC y byddent yn hoffi gweld y parth gwahardd sy'n bodoli ar hyn o bryd (ardal i'r gogledd o ogleddiad 183000N) i ddiogelu cynefinoedd sensitif yn cael ei eithrio o ardal y Drwydded a diffiniwyd o fewn y Cais am Drwydded Forol. Nododd Severn Sands nad yw monitro presennol wedi dangos unrhyw achos i bryderu wrth ystyried bathymetreg y môr gan nodi nad oes unrhyw effaith gysylltiedig ar y blaendraeth o ganlyniad i bresenoldeb cynefinoedd sensitif. Felly byddai'r ymgeisydd yn dymuno cadw'r parth gwahardd fel rhan o ardal y drwydded ar gyfer ceisiadau posibl yn y dyfodol. Derbyniodd CNC ymateb Severn Sands.
- 9.4.6** Derbyniodd Gwasanaeth Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru yr ymateb gan Severn Sands, bydd yn cadw'r ardal carthu yn ôl y gofyn ac yn gweithredu parth gwahardd o fewn amodau'r drwydded i'r gogledd o Ogleddiad 183000N. Bydd amodau monitro ac adroddiadau blynyddol hefyd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn asesu unrhyw newid o fewn ardal y drwydded neu'r blaendraeth.

## **9.5 Prosesau Ffisegol**

- 9.5.1** Nododd CNC bryderon ynghylch dilysrwydd adroddiad modelu tonnau HR Wallingford yn ymwneud ag effeithiau cronus echdynnu agregau ar y Tiroedd Canol a Chymreig a gyflwynwyd i gefnogi'r cais. Codwyd y pryderon cychwynol yn ystod trafodaethau cyn ymgeisio ond teimlai CNC nad oedd y mater yn cael sylw yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd. Ymatebodd Severn Sands i CNC gyda dogfen ychwanegol oedd yn rhoi eglurhad ynghylch pam roedd adroddiad 2008 yn addas at y diben. Dadansodwyd y data arolwg perthnasol i gyfrifo faint o lannau a arolygwyd oedd uwchlaw Datwm Siart (CD) a gwnaed dadansoddiad i sicrhau bod cyfaint y lan o dan y senario carthu a gynllunnir yn y dyfodol yn parhau i fod o fewn terfynau'r hyn a fodelwyd gan HR Wallingford. Yn dilyn cyflwyno'r ddogfen hon cododd CNC bryderon pellach am effaith gynyddol bosibl y gwahanol weithgareddau echdynnu. Nid oedd CNC yn anghytuno â'r data a gyflwynwyd, ond gofynnodd am sicrhau bod tystiolaeth bellach yn cael ei darparu i gefnogi'r dybiaeth fod pob rhan o'r lan yn cael eu cronni ac yn parhau ar lefelau diogel. Gofynnwyd am ddata ychwanegol ar gyfer y canlynol; yr ardaloedd islanwol sy'n ffurfio rhan o Bedwyn a phob rhan o'r North Bristol Deep, yr ardal uwchben 4mCD ar gyfer y Tiroedd Canol a Chymreig cyfan er mwyn helpu i ddisgrifio amrywiadau ar gyfer y rhan honno o'r lan. Ymatebodd Severn Sands fel rhan o'r atodiad gyda'r data ychwanegol, yn unol â chais CNC. Croesawodd CNC y wybodaeth a oedd yn rhoi asesiad gwell o iechyd adnodd ehangach y glannau ac effeithiau cronus. Mae CNC yn argymhell bod yr un dadansoddiad yn cael ei ailadrodd a'i gyflwyno yn yr adolygiad monitro.
- 9.5.2** Mae Gwasanaeth Caniatáu CNC yn fodlon bod y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Severn Sands yn ddigonol ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan CNC. Rhaid i Wasanaeth Caniatáu CNC gynnwys fel rhan o'r amodau monitro bod yn rhaid i'r dadansoddiad hwn gael ei wneud a'i gyflwyno er mwyn gallu gwneud cyfrifiad cywir o'r cyfanswm sy'n weddill o echdynnu a ganiateir a'r uchder sydd ar gael.
- 9.5.3** Gofynnodd y AA am eglurhad ynghylch effaith y bwriad ar yr arfordir yn Lloegr a bod yr adroddiad modelu tonnau gwreiddiol a ddefnyddiwyd i fod yn sail i'r dystiolaeth yn cael ei ddarparu. Ymatebodd Severn Sands gan ddatgan bod ystod eang o astudiaethau a phrif ffynonellau data wedi eu defnyddio i hysbysu'r AA. Mae'r ffynonellau data hyn wedi cael eu defnyddio i fod yn sail i'r dystiolaeth nad oes llwybr ar hyn o bryd rhwng ardal adnewyddu

trwydded Bedwyn Sands a'r arfordiroedd yng nghysgod y gwynt. O ganlyniad, nid oes mecanwaith yn bodoli lle gallai carthu agregau effeithio ar y cyflenwad o waddodion naill ai i arfordir Cymru neu i arfordir Lloegr. Anfonwyd copi o'r adroddiad gyda'r atodiad. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon gyda'r eglurhad, ac nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

- 9.5.4** Dywedodd AA fod y model cysyniadol o gludo gwaddodion a ddisgrifir yn y DA yn ei hanfod yn un o system gaeedig o waddodion crair symudol. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd o ble mae'r gwaddodion i gynnal drychiad Bedwyn Sands yn tarddu, a beth yw'r effeithiau hirdymor posibl ar fanciau tywod rhynglanwol dibynnol eraill, y drefn lanwol a hinsawdd y tonnau sy'n effeithio ar arfordir Lloegr. Ymatebodd Severn Sands gan nodi bod ystod o ffynonellau wedi cael eu defnyddio gan gynnwys adroddiadau presennol, setiau data wedi'u coladu ac astudiaethau modelu rhifiadol i hysbysu'r effeithiau posibl ar echdynnu agregau parhaus. Mae'r canfyddiadau yn dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol iawn y bydd y cloddio parhaus am agregau o fewn Aber Afon Hafren yn arwain at unrhyw effaith sylweddol ar brosesau ffisegol yr ardal astudiaeth ehangach. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon â'r eglurhad hwn, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan Wasanaeth Caniatau CNC.
- 9.5.5** Argymhellodd Asiantaeth yr Amgylchedd fod monitro priodol o'r system banciau tywod yn cael ei gynnal ac y dylid rhoi ystyriaeth i'r angen posibl i gynnwys monitro'r draethlin yn Lloegr. Ymatebodd Severn Sands gan ddatgan bod y canlyniadau a ddisgrifir yn adran 5.1.7.2 y DA, yr adroddiadau monitro blynyddol ac Adroddiad modelu tonnau HR Wallingford 2008 yn dangos nad oes unrhyw lwybr effaith ar gyfer cloddio am agregau dros y Bedwyn Sands i effeithio ar ffynonellau gwaddod hinsawdd y tonnau yng nghysgod yr adnodd. O ganlyniad, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnwys monitro'r Tiroedd Canol a Chymreig cyfan na monitro arfordir Lloegr. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon â'r eglurhad hwn, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.
- 9.5.6** Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd nad yw'n glir o'r DA pa mor ddwfn fydd y carthu arfaethedig ac y byddai'n ddefnyddiol disgrifio'r cyfeintiau echdynnu fel canran o'r dyddodion tywod sydd ar gael. Ymatebodd Severn Sands gan ddatgan bod y mesur lliniaru a ddisgrifiwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn gofyn am ddyfnder digonol o 0.5m i'w adael ar ôl rhoi'r gorau i'r carthu. O ystyried natur Aber Hafren ac adferiad cyflym yr ardal adnewyddu ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y gweithgaredd carthu yn cyrraedd y terfyn capio hwn yn y dyfodol agos. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon â'r eglurhad hwn.
- 9.5.7** Bydd Gwasanaeth Caniatau CNC yn defnyddio'r amod sy'n datgan bod yn rhaid i drwch yr adnodd fod yn  $>0.5m$  ar ôl rhoi'r gorau i'r carthu.
- 9.5.8** Cododd NE bryderon ynghylch y cyfrifiadau cyfeintiol yn y Datganiad Amgylcheddol a arweiniodd at y casgliad bod y banc tywod yn Bedwyn yn profi cyfraddau mawr o groniant tra roedd yn ddarostyngedig i garthu gweithredol. Roedd NE yn pryderu y byddai cyfrifo gwahaniaeth cyfeintiol dros ardal llawer mwy na'r ardal cloddio yn atal unrhyw newid cyfeintiol a fyddai'n deillio o'r carthu rhag cael ei arsylwi. Fe wnaethant hefyd ofyn am fap yn dangos perimedr yr ardal gyda ffin o'i chwmpas y cafodd y cyfeintiau a arddangoswyd yn ffigur 5.15 a thabl 5.6 eu cyfrifo o'i mewn. Ymatebodd Severn Sands fel rhan o'r atodiad gan ddatgan bod y cyfrifiadau o amrywiad yn yr adnodd wedi cael eu cynnal dros ystod o feysydd er mwyn asesu'r effeithiau cyfunol. Mae'r ffigurau a gyflwynwyd eisoes yn y Datganiad Amgylcheddol, sef 5.13 a 5.5 eisoes yn dangos maint yr arolwg. Teimlai NE yn fodlon gyda'r eglurhad, ond teimlai y byddai o fudd i'r sylwadau gael eu hymgorffori yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 9.5.9** Ystyria Gwasanaeth Caniatau CNC ei bod yn ddigonol i'r eglurhad gael ei gynnwys yn yr atodiad. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

- 9.5.10** Gofynnodd Cefas pe bai Trwydded Forol yn cael ei rhoi yna rhaid i adroddiad cyn-carthu gynnwys i) siart isopach o drwch yr adnodd, ii) siart gyda nodweddion gwely'r môr iii) siart o'r gwahaniaethau rhwng y bathymetriau sydd wedi'u modelu a'r rhai cyfredol. Ymatebodd Severn Sands gyda chyflwyno atodiad yn datgan yr ystyrir bod y wybodaeth y gofynnir amdani gan Cefas eisoes wedi cael ei darparu o fewn y Datganiad Amgylcheddol a'r adroddiadau monitro blynyddol gan gasgliad helaeth o lenyddiaeth, data ac adroddiadau sy'n bodoli eisoes. Roedd Cefas yn fodlon gyda'r eglurhad ond yn dal i ofyn am ddarparu siart yn dangos y wybodaeth o'r arolwg adnoddau i sefydlu trwch a natur yr adnodd. Cyflwynodd Severn Sands hyn fel rhan o'r ddogfen eglurhad pellach, ffigur 2. Roedd Cefas yn fodlon gyda'r siart a ddarparwyd fel rhan o'r ddogfen eglurhad pellach.
- 9.5.11** Roedd Gwasanaeth Caniatáu CNC yn fodlon â'r eglurhad a roddwyd fel rhan o'r atodiad a'r ddogfen eglurhad pellach. Ni fydd angen unrhyw arolwg cyn-carthu fel rhan o'r amodau. Ni fydd angen unrhyw gamau pellach.

## **9.6 Ansawdd Dŵr a Gwaddod**

- 9.6.1** Gofynnodd NE fod manylion pellach ar y samplau gwaddod yn cael eu darparu yn arbennig y math o waddod yn y sampl, pob gwerth metel a'r wybodaeth benodol am afon Hafren a ddarparwyd yn Langston et al 2010 (Marine Pollution Bulletin 61: 68-82). Ymdriniodd Severn Sands â'r pryderon hyn a darparodd y wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r atodiad. Roedd NE yn fodlon gyda'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd. Nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

## **9.7 Cynefinoedd a Rhywogaethau benthig**

- 9.7.1** Mynegodd CNC a NE bryderon ynghylch y mesurau monitro a lliniaru presennol ar gyfer cynefinoedd benthig. Awgrymodd NE y dylid cynnal arolwg cymeriadu a monitro llinell sylfaen benthig newydd cyn cyhoeddi unrhyw drwyddedau newydd. Cynghorodd NE y dylai ardal y cais ac i fyny'r afon gael ei chynyddu i ganiatáu ar gyfer rhoi sylw llawn i ôl-troed y gweithgaredd a thu hwnt i'r Dwyrain. Mae NE a CNC yn argymhell hefyd y dylai'r rhaglen monitro gwely'r môr rhanbarthol (RSMP) gael ei mabwysiadu unwaith y bydd ar gael. Ymatebodd Severn Sands fel rhan o'r atodiad a dywedodd y bydd rhaglen fonitro fanwl yn cael ei chynnwys fel rhan o amodau'r drwydded. Bydd hyn yn cael ei drafod a'i gytuno gan y sefydliadau perthnasol. Mae Severn Sands hefyd wedi cytuno i fabwysiadu'r RSMP unwaith y bydd manylion a chynlluniau'r arolwg ar gyfer Aber Afon Hafren ar gael.
- 9.7.2** Mynegodd CNC bryderon ynghylch bioddiogelwch a'r angen i asesu risg effeithiau sy'n gysylltiedig â charthu agregau yn briodol, yn arbennig y posibilrwydd y bydd rhywogaethau anfrodorol (NNS) yn lledaenu. Ymatebodd Severn Sands gydag atodiad a gwybodaeth wedi'i diweddarau. Nid oedd CNC yn fodlon â'r ymateb a roddwyd fel rhan o'r atodiad ac maent yn dal i fod eisiau gwybodaeth am leoliadau gollwng, rhywogaethau anfrodorol y gwyddys sy'n bresennol a'r drefn lle gallai'r gweithgaredd gynorthwyo trosglwyddiad pob rhywogaeth. Gyda dealltwriaeth gyfredol CNC a gwybodaeth am rywogaethau anfrodorol yn Aber Afon Hafren, ystyrir bod y gweithgaredd arfaethedig yn annhebygol o beri risg ac felly ni fydd angen unrhyw asesiad pellach ar hyn o bryd. Awgrymodd CNC bod asesiadau yn y dyfodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiadau rheolaidd.



**9.7.3** Rhaid i Wasanaeth Caniatau CNC gynnwys amod yn y drwydded yn ymwneud â bioddiogelwch, trafodaethau pellach rhwng Gwasanaeth Caniatau CNC, CNC a MMO ynghylch y rhaglen fonitro benthig. Cyflwynwyd dyluniad o'r arolwg gan Keith Cooper. Mae hwn wedi cael ei gyflwyno, ei gytuno a'i gymeradwyo gan CNC, Severn Sands ac NE. Bydd dull RSMP at fonitro yn cael ei gyflyru fel rhan o'r ML.

## **9.8 Pysgod a Physgod Cregyn**

**9.8.1** Nododd NE bod amrywiaeth eang o ddata arolwg wedi cael ei ddefnyddio i lenwi'r wybodaeth am bysgod a physgod cregyn, ond ni roddwyd gwybodaeth am gyfyngiadau / detholedd pob math o offer. Roedd hyn yn bwysig i werthuso'r data am ddaliadau a'i gasgliadau. Ymatebodd Severn Sands gydag atodiad wedi'i ddiweddarau a oedd yn ymdrin â'r pryderon a amlygwyd gan NE. Derbyniodd NE yr ymateb ond rhoddodd Cefas sylwadau ar yr atodiad. Roedd Cefas yn gofyn am esboniadau pellach am fanylion fel maint y rhwyll, pellter halio, dyfnder y rhwydi ac ati. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Gwasanaeth Caniatau CNC, ABPmer a Cefas ar 01/02/2016 lle gwnaeth Severn Sands egluro nad oeddent yn gallu rhoi mwy o eglurhad am yr arolygon. Cadarnhaodd Cefas na fyddai eglurhad pellach yn angenrheidiol er mwyn cytuno ar y casgliadau'r DA.

**9.8.2** Roedd Gwasanaeth Caniatau CNC yn fodlon fod y mater hwn wedi cael sylw digonol ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

## **9.9 Mordwyo Masnachol ac ar gyfer Hamdden**

**9.9.1** Rhoddodd y BPC a'r GHT sylwadau ar fanylion yn y Datganiad Amgylcheddol sydd naill ai ar goll neu'n anghywir. Roedd pynciau yn cynnwys; cyfyngiadau ar y defnydd o ddata AIS mewn asesiadau llywio, llwybrau morio RYA, llwybrau cychod hamdden trwm RYA yn ardal GHT a llinellau cludo. Ymatebodd Severn Sands gyda diweddariad i'r atodiad yn ymdrin â'r pryderon a godwyd. Ymatebodd GHT i ddweud ei fod yn fodlon gyda'r eglurhad a roddwyd, cysylltwyd â BPC ond ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach.

**9.9.2** Gwasanaeth Caniatau CNC i gymryd yn ganiataol nad oes gan BPC unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud a'i fod yn fodlon gyda'r ymateb. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan Wasanaeth Caniatau CNC.

## **9.10 Archaeoleg Morol**

**9.10.1** Credai HE nad oedd digon o ddeunydd perthnasol a chyfoes na digon o ffynonellau a ddefnyddiwyd i nodi'r asedau treftadaeth hysbys a phosibl sy'n bodoli yn ardal adnewyddu Trwydded Bedwyn. Gofynnodd HE am sicrhau bod asesiad archeolegol yn cael ei wneud gan gontractwr archeolegol morol achrededig a phroffesiynol sy'n defnyddio'r holl setiau data trawsffiniol i ddarparu dealltwriaeth gyfannol o effeithiau sylfaenol ac eilaidd ac y dylid cael rhagor o wybodaeth drwy gofnodion tyllau turio a 'vibrocore'. Gofynnodd HE a BCC hefyd am sicrhau bod cynllun mwy manwl a phriodol o gamau lliniaru a monitro yn cael ei baratoi. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Gwasanaeth Caniatau CNC, HE,

ABPmer ac archeoleg Wessex a oedd wedi ei gyflogi gan yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan AU. O'r cyfarfod daethpwyd i'r casgliad y byddai'r materion yn cael eu datrys drwy wneud y canlynol; cynnwys ystod ehangach o ffynonellau data, mwy o groesgyfeirio gyda'r adran prosesau ffisegol, mwy o ystyriaeth i English Waters a mwy o gyfeirio at y datganiad polisi morol. Cytunwyd na fyddai angen arolygon geoffisegol oherwydd gyda data gwell gallai'r disgrifiad sylfaenol gael ei ddiweddarau'n ddigonol. Bydd mesurau lliniaru yn cael eu diweddarau a bydd angen iddynt ddilyn canllawiau a phrotocol BMAPA ar gyfer adrodd am ddarganfyddiadau ac i Severn Sands gymryd rhan yn rhaglen ymwybyddiaeth BMAPA. Yna cafodd yr atodiad ei gyflwyno. Roedd yn ymdrin â phryderon AU a oedd yn fodlon gyda'r manylion. O'r atodiad hwn gofynnodd GGAT, er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth wedi gwneud argraff ffafriol iawn arno, am sicrhau bod setiau data perthnasol a guradwyd gan RCAHMW yn cael eu cynnwys i ddangos safleoedd llongdrylliadau a damweiniau awyren yng Nghymru a thrwy hynny ddarparu darlun cyflawn o adnoddau archaeolegol ym Môr Hafren. Ymatebodd Severn Sands gyda dogfen eglurhad pellach yn ymdrin â'r materion a godwyd gan GGAT. Roedd GGAT yn fodlon gyda'r ymateb o fewn y ddogfen eglurhad pellach.

**9.10.2** Roedd Gwasanaeth Caniatau CNC yn fodlon bod yr holl faterion archeolegol wedi'u datrys a bydd y drwydded yn cynnwys amodau sy'n adlewyrchu cyngor HE a GGAT. Bydd yr amodau hyn yn sicrhau bod canllawiau a phrotocolau BMAPA ar gyfer adrodd am ddarganfyddiadau o bwysigrwydd hanesyddol yn cael eu gweithredu. Mae CNC yn croesawu ymagwedd Severn Sands at gymryd rhan yn rhaglen ymwybyddiaeth BMAPA.

## **9.11 Effeithiau Cronnus**

**9.11.1** Nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol, er bod Lagŵn Llanw Bae Abertawe wedi cael ei ystyried fel rhan o astudiaeth yr effeithiau cronnus nad yw cynigion Morlyn Llanw Caerdydd a Chasnewydd wedi cael sylw er ei fod yn llawer agosach. Credai AA fod ABPmer eisoes wedi bod yn modelu effeithiau posibl cynigion TLP Caerdydd, Casnewydd a Bae Bridgewater. Ymatebodd Severn Sands fel rhan o'r ddogfen atodiad gan nodi nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i wneud asesiad manwl o'r effeithiau cronnus tebygol gan mai dim ond yn y cam rhagarweiniol yn unig y mae lagwnau Caerdydd a Chasnewydd. Roedd rhai effeithiau hydrodynamig wedi cael eu darparu fel rhan o'r adroddiad cwmpasu, ond ystyrir bod yr asesiadau hyn yn ddigonol dim ond ar gyfer astudiaeth nodweddu cychwynnol. Ni roddodd AA unrhyw sylw pellach.

**9.11.2** Nid yw Gwasanaeth Caniatau CNC yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i gynnwys lagwnau Caerdydd a Chasnewydd fel rhan o'r astudiaeth effaith gronnus. Mae'r ddau ddatblygiad mewn camau mor gynnar fel na fyddai gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd wedi ei datblygu'n ddigonol i'w chynnwys fel rhan o'r asesiad o effeithiau cronnus ar gyfer Bedwyn Sands.

**9.11.3** Nododd CNC fod effeithiau cronnus yn cael eu hasesu gan gyfeirio at safleoedd agregau eraill yn unig, a dylai'r bennod hon gyfeirio at iechyd cyffredinol y Tiroedd Canol a Chymreig a modelu tonnau SEAWG. Ymdriniodd Severn Sands â'r pryderon hyn gyda gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiad. Mae CNC yn croesawu gwybodaeth ychwanegol ac yn fodlon â'r asesiad.

**9.11.4** Mae Gwasanaeth Caniatau CNC yn fodlon â'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd fel rhan o'r atodiad, ac nid oes angen unrhyw gamau pellach.

## 9.12 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**9.12.1** Mae asesiad BCC o oblygiadau'r cynnig ar nodweddion gwarchod natur yn gofyn am fodelu manwl ar effeithiau cael gwared ar waddod a'r newidiadau sy'n deillio o hynny i brosesau arfordirol. Ymatebodd Severn Sands fel rhan o'r atodiad gan nodi bod amrywiaeth fawr o astudiaethau ac adroddiadau wedi cael eu defnyddio i hysbysu'r Datganiad Amgylcheddol, ac mae'r materion hyn eisoes wedi cael eu trin.

**9.12.2** Cysylltodd Gwasanaeth Caniatau CNC â BCC gyda'r ymateb fel rhan o'r atodiad. Ni wnaeth BCC ymateb. Mae Gwasanaeth Caniatau CNC yn tybio na fydd unrhyw sylwadau pellach ac nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd.

## 9.13 Asesiad Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

**9.13.1** Nododd AA nad yw asesiad Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfeirio at welyau morwellt. Mae angen i'r cynefin hwn gael ei gynnwys fel rhan o'r asesiad. Ymatebodd Severn Sands gyda diweddariad yn yr atodiad a oedd yn cynnwys manylion am y data y gofynnwyd amdanynt. Croesawodd AA yr eglurhad. Gofynnodd CNC hefyd am sicrhau bod y data diweddaraf yn cael eu defnyddio i fod yn sail i'r asesiad. Byddai hyn yn golygu cynnwys morfa heli fel methiant. Ymatebodd Severn Sands gyda diweddariad i'r adrannau perthnasol. Derbyniodd CNC yr eglurhad.

**9.14.2** Roedd Gwasanaeth Caniatau CNC yn fodlon fod yr holl bryderon a godwyd wedi cael eu datrys yn y ddogfen eglurhad. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

## Gwerthusiad Rheoleiddio a phenderfyniad cydsynio AEA (EIA)

Wrth ystyried y cais am Garthu Mwynau Morol yn Bedwyn Sands cafodd y canlynol ei ystyried:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r
- Sylwadau a dderbyniwyd.


Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu bod effeithiau amgylcheddol carthu mwynau morol wedi cael eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu yn ddigonol ac y gallai mesurau lliniaru gael eu sicrhau a fyddai'n ddigonol i ganiatau i'r cais am drwydded garthu gael ei gymeradwyo.

## Llofnodi

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 01 Rhagfyr 2016

**Cymeradwywyd gan:** Eleanor Smart

**Llofnodwyd:** 

**Dyddiad:** 18 Ebrill 2017